

Rheolau gwariant Refferendwm yr UE – yr effaith bosibl ar weithgareddau eich sefydliad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, ceir rheolau ynghylch gwariant ar weithgareddau penodol y bwriedir iddynt sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i bob sefydliad ac unigolyn, gan gynnwys cwmnïau, elusennau a sefydliadau ymgyrchu.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi trosolwg o sut y gall rheolau gwariant y refferendwm fod yn berthnasol i weithgareddau eich sefydliad yn ystod cyfnod y refferendwm. Dylid darllen y daflen ffeithiau hon ar y cyd â'n [canllawiau](#) ar refferendwm yr UE.

Trosolwg o reolau gwariant refferendwm yr UE

Cyn y refferendwm, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn 'gyfnod y refferendwm.' Yn ystod y cyfnod hwn, mae rheolau ynghylch terfynau gwariant yn berthnasol i weithgareddau penodol.

Mae cyfnod y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill 2016 ac yn dod i ben ar 23 Mehefin 2016.

Mae gwariant ar y refferendwm yn cynnwys gwariant ar weithgareddau ymgyrchu penodol y bwriedir iddynt hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm, neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Mae gwariant ar y refferendwm yn cynnwys gwariant ar:

- eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir yn ystod cyfnod y refferendwm gan gynnwys y rhai a brynir cyn i'r cyfnod ddechrau
- eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir yn ystod y refferendwm ond y telir amdanynt ar ôl hynny
- eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%

Dylech ddarllen ein [canllawiau](#) er mwyn deall i ba weithgareddau y mae'r rheolau'n berthnasol a pha wariant sy'n cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Gall unrhyw unigolyn neu sefydliad wario hyd at £10,000 ar y refferendwm. Ni chewch wario mwy na £10,000 ar y refferendwm yn

ystod cyfnod y refferendwm, oni bai eich bod wedi cofrestru â ni i fod yn 'ymgyrchydd cofrestredig'. Os gwnewch hynny, mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni trosedd. Mae ein [canllawiau](#) yn esbonio pwy all gofrestru a sut i gofrestru.

Mae gan ymgyrchwyr cofrestredig derfyn gwariant uwch a rhaid iddynt ddilyn y rheolau ar roddion a benthyciadau a rhoi gwybod i ni am fanylion eu gwariant a'u rhoddion.

Gweithgareddau eich sefydliad a rheolau gwariant ar y refferendwm

Fel sefydliad, mae'n bosibl eich bod yn cynllunio gweithgareddau arferol yn ystod cyfnod y refferendwm a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r refferendwm.

Ni fydd llawer o'ch gweithgareddau yn bodloni'r prawf ar gyfer gwariant ar refferendwm. Fel arfer, nid yw gweithgareddau arferol wedi'u hanelu at bleidleiswyr ac mae'n bosibl na fyddant yn cynnig barn ar ddau ganlyniad y refferendwm nac yn cynnwys iaith gadarnhaol na negyddol ynglŷn â chanlyniad penodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y gweithgareddau'n rhan o waith ehangach eich sefydliad mewn perthynas â'r refferendwm. Gallant hefyd fod yn rhan o gefnogaeth gyhoeddus eich sefydliad i ganlyniad penodol.

Os yw'r gweithgareddau hyn yn digwydd yn ystod cyfnod y refferendwm, bydd angen i chi benderfynu p'un a fwriedir i'ch gwariant hyrwyddo neu sicrhau

canlyniad penodol yn y refferendwm neu a yw'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Mae'r enghreifftiau isod yn esbonio sut y gall prawf gwariant y refferendwm fod yn berthnasol i rai gweithgareddau cyffredin:

- Eich adroddiad blynyddol
- Cyngor proffesiynol a roddir i gleientiaid ynglŷn â'r refferendwm
- Adroddiad ymchwil neu ddadansoddiad risg sy'n ymwneud yn benodol â refferendwm yr UE
- Digwyddiad ar gyfer diwydiant neu sector sy'n ymwneud â'r refferendwm
- Arolygon barn

Adroddiad blynyddol cwmni neu sefydliad

Mae adroddiad blynyddol yn cyflwyno gwybodaeth, yn disgrifio digwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn rhoi trosolwg o'r cwmni i randdeiliaid, buddsoddwyr, arianwyr neu gefnogwyr presennol neu bosibl. Gall adroddiad sôn am y risgiau posibl i'r sefydliad sy'n gysylltiedig â refferendwm yr UE.

Mae'n annhebygol y bydd adroddiad blynyddol cwmni neu sefydliad wedi'i fwriadu i hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm neu'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Os caiff risgiau canlyniad penodol eu disgrifio fel rhan o sylwadau ynglŷn â'r cyd-destun ehangach y bydd y sefydliad yn gweithredu ynddo, ni fydd hyn yn cyfrif fel gwariant ar y refferendwm. Os bwriedir i'r sylwadau ddylanwadu ar

ddewis pobl wrth bleidleisio drwy fynegi barn ar ganlyniad, mae'n debygol y bydd hyn yn cyfrif fel gwariant ar y refferendwm.

Cyngor proffesiynol a roddir i gleientiaid

Os mai busnes yw eich sefydliad, mae'n bosibl y bydd cleientiaid yn gofyn am eich cyngor proffesiynol mewn perthynas â buddsoddiadau yn y dyfodol a all gynnwys trafod goblygiadau canlyniad refferendwm yr UE.

Mae'n bosibl y bydd pobl yn gofyn i sefydliadau eraill hefyd am gyngor proffesiynol, fel rhan o'u gwaith arferol, sydd â chysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r refferendwm.

Mae'n annhebygol bod rhoi cyngor proffesiynol yn rhywbeth y bwriedir iddo hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall, a hynny am eich bod yn rhoi cyngor i gleientiaid yn rhinwedd eich rôl broffesiynol yn hytrach na rhoi cyngor iddynt fel pleidleiswyr.

Gall y cyngor ymwneud â'r refferendwm, ond os mai rhoi barn broffesiynol sy'n rhan o'r gwasanaeth a ddarperir gan eich sefydliad yw diben hyn, yn hytrach na dylanwadu ar ddewis pobl wrth bleidleisio, ni fydd hyn yn cyfrif fel gwariant ar y refferendwm.

Adroddiadau ymchwil neu ddadansoddiad risg ynglŷn ag effaith refferendwm yr UE

Caiff gwariant ar adroddiad ymchwil neu ddadansoddiad risg ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm os bwriedir iddo hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y

refferendwm neu os yw'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Os caiff y ddau ganlyniad eu cymharu yn yr adroddiad, os rhoddir barn o ran pa ganlyniad y dylid ei ffafrio neu os yw'r adroddiad yn defnyddio iaith gadarnhaol neu negyddol yn hytrach nag iaith niwtral, wrthrychol, bydd y gwariant yn fwy tebygol o ddod o dan y rheolau gwariant. Er enghraifft, bydd adroddiad sy'n cymharu'r ddau ganlyniad mewn tôn niwtral, gwrthrychol ac nad yw'n dangos barn nac yn defnyddio iaith bositif na negatif yn annhebygol o ddod o fewn y rheolau gwariant.

Dylech hefyd ystyried pwy yw'r gynulleidfa y mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar ei chyfer. Er enghraifft, os mai dim ond i'ch cleientiaid neu i gyd-academyddion rydych yn hyrwyddo'r adroddiad, gall hyn awgrymu bod y gynulleidfa darged yn un broffesiynol. Os byddwch yn hyrwyddo'r adroddiad yn ehangach, er enghraifft ar eich gwefan neu i'r cyfryngau, bydd hyn yn awgrymu mai eich bwriad yw dylanwadu ar y pleidleiswyr ehangach.

Os yw'r adroddiad yn rhan o ymgyrch ehangach a gynhelir gan eich sefydliad gyda'r bwriad o hyrwyddo un ochr o ddadl y refferendwm, mae'n fwy tebygol o gael ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm.

Digwyddiadau sy'n ymwneud â'r refferendwm

Bydd gwariant ar ddigwyddiadau y bwriedir iddynt hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm, neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall, yn

cael ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm. Er enghraifft, efallai y bydd eich sefydliad yn cynnal digwyddiad lle caiff gwleidydd neu arweinydd busnes neu sector sy'n cefnogi un ochr i'r ddadl ei wahodd i siarad am y refferendwm ac effaith y bleidlais.

Fodd bynnag, os byddwch yn cynnal digwyddiad gan wahodd siaradwyr i gynrychioli'r ddau ganlyniad ac yn rhoi cyfle cyfartal i bawb sy'n bresennol gymryd rhan, ac felly nad bwriad y digwyddiad yw hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol mewn unrhyw ffordd, mae'n annhebygol y bydd eich gwariant ar y digwyddiad yn cael ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm.

Os byddwch yn cynnal digwyddiad er mwyn cynllunio'r hyn y bydd sefydliadau yn ei wneud yn achos canlyniad penodol, neu sut i baratoi ar gyfer y canlyniad hwnnw, mae'n bosibl na fydd hyn yn cyfrif fel gwariant ar y refferendwm. Os bydd y digwyddiad yn cynnig barn o ran pa ganlyniad a ffefrir, bydd y gwariant yn fwy tebygol o gael ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm.

Arolygon barn

Efallai y byddwch yn penderfynu cynnal arolwg o farn y cyhoedd neu eich aelodau ar refferendwm yr UE. Caiff gwariant ar arolygon barn ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm os bwriedir iddo hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm neu os yw'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Er enghraifft, os bydd arolwg yn gofyn cwestiynau arweiniol sydd â'r nod o sicrhau canlyniad penodol, bydd hyn yn awgrymu mai bwriad yr arolwg yw dylanwadu ar y ffordd

y bydd pobl yn pleidleisio a hyrwyddo canlyniad penodol.

Os bydd arolwg yn casglu gwybodaeth ac yna eich bod yn defnyddio'r wybodaeth honno i hyrwyddo canlyniad, bydd hyn yn cael ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm.

Os bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cadw'n fewnol o fewn eich sefydliad, mae'n annhebygol y bydd costau'r arolwg yn cael eu cyfrif yn wariant ar y refferendwm. Os byddwch yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo canlyniadau'r arolwg yn ehangach, neu'n defnyddio'r arolwg fel rhan o waith ymgyrchu neu waith arall lle rydych yn nodi eich barn ar ganlyniadau'r refferendwm, mae'n fwy tebygol y bydd y gwariant yn cael ei gyfrif yn wariant ar y refferendwm.

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein [gwefan](#).

Gallwch gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni neu anfonwch e-bost atom yn:

- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gywbodaeth@comisiwnetholiaidol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk